**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Gorffennaf 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs. J. Hughes, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, a Ms. V. Roberts

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 10. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley Mrs. J. Butterfield, Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Harris, Miss E.L. Jones, a B. Mellor

## 11. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

| ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| 11.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 43/45 Queen Street, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR WARD:** Ms. J. Hughes a Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0649<br><br>Caniatâd ardal gadwraeth i ddymchwel 43-55 Queen Street, y Rhyl.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr Mark Dixon , Cyngor Sir Ddinbych, Caledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad yn amodol ar ddefnydd dros dro fel maes parcio yn cael ei gyfyngu i 5 mlynedd ar y mwyaf o'r dyddiad dymchwel gyda'r amodau canlynol am y rhesymau a nodir*<br><br>- *Cyfyngu oriau gweithredu'r maes parcio i 10.00 a.m. hyd at 10.00 p.m. gydag arhosiad o 3 awr ar y mwyaf*<br>- *Peidio â chodi tâl am barcio*<br><br>*Mae cau Queen Street dros gyfnod estynedig o amser wedi cael effaith andwyol ar hyfywedd busnesau lleol a bydd darparu maes parcio am ddim yn* |

| | |
|---|---|
| | *yr ardal yn annog cwsmeriaid i ddychwelyd i'r busnesau hyn. Mae'r cyfyngiad amser yno i osgoi gweithwyr mewn siopau lleol yn defnyddio'r maes parcio ar gyfer lle parcio i staff.* |
| | |
| 11.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 8/9 Market Street, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR WARD:** Ms. J. Hughes a Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0575<br><br>Newid defnydd siop manwerthu dosbarth A1 yn wasanaeth ariannol a phroffesiynol gyda llety ategol y tu ôl i Rif 8.<br><br>Yr ymgeiswyr yw Corbett Sports, 9 Market Street, y Rhyl.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Gwrthwynebiad. 8 Market Street yw'r adeilad manwerthu A1 olaf yn y bloc hwn o siopau a byddai newid defnydd yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad hanfodol manwerthu'r rhan hon o'r prif fan siopa yng nghanol tref y Rhyl, yn groes i fwriadau Amcan Polisi 4 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.* |
| | |
| 11.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE** Sainsbury's, Parc Manwerthu Clwyd, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR WARD:** Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. E.M. Chard, Miss E.L. Jones<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0630<br><br>Arddangos arwyddion newydd.<br><br>Yr ymgeiswyr yw'r Sainsbury's Supermarket Group, Coventry.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad.* |
| | |
| 11.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 48 Tynewydd Road, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Brynhedydd<br><br>**CYNGHORWYR WARD:** S. Harris a B. Mellor<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0640<br><br>Adeiladu modurdy newydd ar wahân.<br><br>Yr ymgeisydd yw Clair Hughes o'r un cyfeiriad.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad.* |
| | |

| | |
|---|---|
| 11.5 | **<u>CAIS WEDI'I NEWID</u>**<br><br>**<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>** Tir yn cyffinio 21 Stanley Park Avenue, y Rhyl.<br><br>**<u>WARD</u>**: Trellewelyn<br><br>**<u>CYNGHORWYR WARD:</u>** A.S. Johnson, Mrs. W. Mullen-James, Ms. V. Roberts<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>**: 45/2017/0335<br><br>Datblygu 0.05 ha o dir trwy adeiladu 1 tŷ annedd (cais amlinell yn cynnwys mynediad, cynllun a maint).<br><br>Yr ymgeisydd yw O'Loughlin, 11a Gillian Drive, y Rhyl.<br><br>**<u>PENDERFYNIAD</u>** Gwrthwynebiad oherwydd gor-ddwysád. |
| | |
| 11.6 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>** Liffy's, 7-9 Ffordd Russell, y Rhyl.<br><br>**<u>WARD:</u>** Bodfor<br><br>**<u>CYNGHORWYR WARD</u>:** Ms. J. Hughes a Ms J. McAlpine<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2017/0626<br><br>Arddangos arwydd crog sy'n estyn allan.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. David Griffith o'r un cyfeiriad.<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>****: Dim gwrthwynebiad.* |
| | |
| 11.7 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>** Brewers Fayre a Premier Inn, 21-26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl.<br><br>**<u>WARD:</u>** Bodfor<br><br>**<u>CYNGHORWYR WARD</u>: :** Ms. J. Hughes a Ms J. McAlpine<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2017/0625<br><br>Arddangos arwyddion mewn perthynas â'r bwyty a'r gwesty.<br><br>Yr ymgeisydd yw Whitbread PLC, Dunstable.<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>****: Dim gwrthwynebiad yn amodol ar Nodyn Rhif 1 uchod.* |

| | |
|---|---|
| 11.8 | **LLEOLIAD Y SAFLE** George Hotel, 37 Queen Street, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR WARD: :** Ms. J. Hughes a Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/0636<br><br>Ailsefydlu muriau terfyn a darparu cwrtil a storiau bin ar gyfer fflatiau lloriau uwch.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr Mark Dixon , Cyngor Sir Ddinbych, Caledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych.<br><br>***PENDERFYNIAD:*** *Dim gwrthwynebiad.* |
| | |

## 12. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ……………………........